Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Fe fydd y traethawd hwn yn seiliedig ar un pwynt gweithredu sy'n deillio o 'Gynllun Gwella'r Ysgol' (CGY), ysgol PAP un. Yn ôl y cynllun hwn mae gan yr ysgol pum targed fel rhan o'i blaenoriaethau gwella. Fe fyddai'n ffocysu ar y targed 'Safonau' sy'n canolbwyntio ar godi safonau Iaith a llythrennedd ar draws yr ysgol. Lleolwyd yr ysgol Gynradd Gymraeg arloesol (Estyn, 2016a) yn Ne Cymru. Yn 2018 roedd 293 o ddisgyblion rhwng yr oedrannu tri ac un ar ddeg mlwydd oed yn mynychu'r ysgol (Fy Ysgol Leol, 2018). Mae'r ysgol yn cynnwys un ar ddeg dosbarth gyda phump o rain yn rhai cymysg (Estyn, 2016a). Yn ôl ystadegau'r ysgol mae 16% o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (Estyn, 2016a). Mae 11.5% o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim (Fy Ysgol Leol, 2018) sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% (Estyn, 2016a). Mae nifer bach iawn o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn cael ei siarad (Estyn, 2016a).

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae Cynllun Gwella Ysgol yn gynllun strategol ar gyfer gwella'r ysgol. Fe fydd y cynllun yn dangos ac esbonio sut bydd yr ysgol yn "cyrraedd ei thargedau, o ran ei blaenoriaethau, a sut bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys cyllid" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.3). Yn y CGY o dan sylw mae pum prif darged sef; Cwricwlwm i Gymru, Dysgu ac Addysgu, Safonau, Datblygiad Proffesiynol a Gwella amgylchedd Dysgu ac Addysgu'r Ysgol. Yn ôl Hanover Research dylai targedau cyflwyno her, ond dylai'r heriau bod yn rhesymol ac hefyd dylai cynllun datblygu ysgol gynnwys dau i bum targed (Hanover Research, 2014, t,6 a 11). Mae'r ysgol hon wedi dilyn yr hyn dywedai Hanover Research am y nifer o dargedau ddylai fod o fewn y CGY. Mae trydydd targed yr ysgol wedi blaenoriaethu ar godi safonau Iaith a Llythrennedd y plant ar draws yr ysgol, sy'n rhan o flaenoriaethau cenedlaethol hefyd (Llywodraeth Cymru, 2014, t.3).

Mae pwyslais ar bwysigrwydd sgiliau iaith a llythrennedd o fewn y cwricwlwm presennol a Chwricwlwm 2022. Yn ôl Donaldson mae iaith yn "anhepgor nid yn unig ar gyfer cyfathrebu effeithiol ond hefyd ar gyfer dysgu, myfyrio a chreadigrwydd" (Donaldson, 2015, t.48). Nid

oes syndod felly bod yr ysgol wedi dewis targed sydd yn ffocysu ar wella safonau iaith eu plant. Mae'r maes dysgu a phrofiad iaith llythrennedd a chyfathrebu'n "cwmpasu'r camau ar gyfer meithrin sgiliau gwrando a siarad (llafaredd), darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg" (Donaldson, 2015, t.49).

Mae datblygu sgiliau iaith a llythrennedd yn ein plant a phobl ifanc yn holl bwysig ac mae 'Dyfodol Llwyddiannus'(2015) yn dangos hyn. Er hyn, dangoswyd sgôr 'Pisa' bod gan Cymru y sgôr gwaethaf yn y Deyrnas Unedig o ran darllen (Lewis, 2019). Noda Estyn bod gwella medrau llythrennedd disgyblion yng Nghymru wedi bod yn "flaenoriaeth trwy gydol cylch arolygu 2010-2017" (Estyn, 2017a,t.18). Er mwyn codi safonau llythrennedd cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ym mis Medi 2013 (Estyn, 2017a, t.18). Mae'r fframwaith hwn yn offeryn cynllunio'r cwricwlwm sy'n cefnogi athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu (Llywodraeth Cymru, 2013, t.3-4). Roedd y fframwaith wedi ei greu er mwyn "darparu continiwm datblygu sy'n nodi'n glir canlyniadau disgwyliedig blynyddol mewn llythrennedd a rhifedd" (Llywodraeth Cymru, 2013, t.3). Adlewyrcha arolygiad diwethaf yr ysgol ei bod yn datblygu'r Fframwaith yma'n llwyddiannus (Estyn, 2016a, t.11).

Yn ôl Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-2017 "mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi gwella… mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig llafaredd a darllen" (Estyn, 2017a, t.19). Noda'r adroddiad bod angen gwella safonau ysgrifennu'r disgyblion o fewn ysgolion yng Nghymru, gan fod ysgrifennu yn parhau i fod yn wannach i gymharu ag agweddau eraill o lythrennedd (Estyn, 2017a, t,19). Dangosodd yr adroddiad nid yw rhai ysgolion yn darparu "digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig neu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm" (Estyn, 2017a, t.19). Wrth ddadansoddi'r CGY maent wedi cynnwys ffocws ar waith ysgrifennu estynedig pythefnosol. Gwelwyd pwyslais ar ysgrifennu estynedig o fewn adroddiad Estyn 'Arweiniad atodol: arolygu llythrennedd mewn ysgolion' (Estyn, 2017b). Dangoswyd yr arweiniad yma beth bydd arolygwyr yn arolygu o ran safonau llythrennedd yr ysgol. Un o'r elfennau hyn yw pa mor dda mae disgyblion "yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio ystod eang o fathau o destun, sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu" (Estyn, 2017b,t.4).

Noda'r EEF, taw siarad a gwrando sydd wrth wraidd iaith, maent yn sylfaen i ddarllen ac ysgrifennu yn ogystal â sgiliau hanfodol ar gyfer meddwl a chyfathrebu (EEF, 2017, t.8). Mae adroddiad EEF 'Improving Literacy in Key Stage 2' yn datganu dylai athrawon ffocysu ar ddatblygiad iaith eu disgyblion yn enwedig eu hiaith fynegiannol, a bydd hyn yn cefnogi ee gwaith ysgrifennu hefyd (EEF, 2017,t.8). Yn ôl y CGY mae'r targed gwella safonau iaith y disgyblion gyda ffocws ar ddarparu gwaith estynedig pythefnosol yn cynnwys bwydlen o

genres Ffuglen a Ffeithiol. Mae hyn yn cydfynd gyda barn yr EEF; er mwyn i'r disgyblion gallu ysgrifennu gwaith o safon mae angen iddynt gael eu cyflwyno at ddewis eang o wahanol destunau sydd â lefel briodol o her, ac o ganlyniad bydd hyn yn datblygu eu gallu iaith (EEF, 2017, t.8).

Mae'r ysgol yn un arloesol ac mae ganddynt statws Ysgol Greadigol (Estyn, 2016b). Yn y gorffennol mae'r ysgol wedi cynllunio gweithgareddau fel rhan o brosiect er mwyn datblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy ddysgu creadigol cyffrous (Estyn, 2016b). Roedd y prosiect yma'n llwyddiannus iawn gyda "pob plentyn wedi gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar" (Estyn, 2016b). O ganlyniad i'r prosiect hefyd gwelwyd cynnydd yng nghyflawniad bechgyn yn ogystal â disgyblion bregus (Estyn, 2016b).Felly, mae'r ysgol wedi arbrofi gyda thechnegau gwahanol er mwyn gwella safonau iaith a llythrennedd yr ysgol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae adnabod cryfderau gan adeiladu arnyn nhw "yn rhan hanfodol o welliant ar draws y system" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.8).

Datblygu pwynt gweithredu

Mae C D Y yn gallu cael ei ddisgrifio fel map sy'n nodi'r newidiadau mae angen i ysgol wneud er mwyn gwella lefel cyflawniad myfyrwyr, a dangos sut a phryd y bydd y newidiadau yma'n cael eu gwneud (Hanover Research, 2014, t.5). Noda Llywodraeth Cymru (2014) bod gan gynllun datblygu ysgol "cylch gwella nodweddiadol sef hunanwerthuso, cynllunio, gweithredu ac adolygu". Mae'r cylch yma wedi ei gymhwyso yn erbyn gweledigaeth glir o'r hyn "mae'r ysgol yn anelu i'w gyflawni" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.7). Gweledigaeth yr ysgol sydd yn arwain y cylch gwella felly, a dylai'r camau eraill yn y cylch gymryd y weledigaeth yma mewn i ystyriaeth (Schildkamp, 2019, t.258). Gweledigaeth yr ysgol ydy "i roi amrywiaeth eang o brofiadau a chyfleoedd i'w disgyblion fel eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau a dewisiadau ar sail gwybodaeth yn y dyfodol" (CGY, 2019, t.3).

Mae hunanwerthuso yn rhan bwysig o'r ffordd mae pob ysgol yn myfyrio ar ei pherfformiad a chynllunio yn effeithiol ar gyfer gwelliant (Llywodraeth Cymru, 2014, t.8). Yn ôl adroddiad Estyn 2016 mae gan yr ysgol "diwylliant llwyddiannus o hunan arfarnu a sicrhau gwelliant" (2016a, t.11). Mae CGY yr ysgol yn cynnwys 'arfarniad', sy'n digwydd ym mis Rhagfyr, Mawrth a Mehefin er mwyn gwerthuso ac adfyfyrio yr hyn maent wedi cyflawni o fewn gweithredoedd y targedau. Er bod copi diweddara gennyf o'r cynllun, dim ond dau darged sy'n cynnwys arfarniad mis Rhagfyr. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae CGY yn "ddogfen fyw y dylid ei hadnewyddu'n rheolaidd i adlewyrchu cynnydd yr ysgol" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.3). Yn anffodus, nid yw'r arfarniad wedi ei diweddaru sy'n mynd yn erbyn beth ddywedai Llywodraeth Cymru. Er hyn mae'n amlwg, ni fydd arfarniad mis Mawrth yn digwydd neu fe

fydd wedi oedi o ganlyniad i'r sefyllfa byd eang o salwch coronafeirws a wnaeth cau ysgolion ar y 20fed o Fawrth (BBC, 2020).

Yn ôl Schildkamp, mae ymchwil wedi dangos bod gwneud penderfyniadau ar sail data yn cyfrannu at gynnydd i ddysgu a chyflawniad myfyrwyr (Schildkamp, 2019, t.258). Wrth ddadansoddi'r CGY, mae'n amlwg ei bod yn defnyddio data meintiol ac ansoddol er mwyn mesur cyrhaeddiad targedau'r cynllun. Mae'r ysgol yn rhoi fwy o bwyslais ar ddata meintiol yn enwedig pa ddeilliannau a lefelau dylai'r plant cyrraedd. Mae hyn yn cyd-fynd gyda Llywodraeth Cymru a beth maent yn nodi am esiamplau o ddata meintiol sef "gwybodaeth olrhain am gynnydd dysgwyr" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.9). Adlewyrcha Schildkamp bod Cynllun Datblygu yn broses rhyngweithiol lle mae data yn chwarae rôl bwysig (Schildkamp, 2019, t.258). Dylai CGY dechrau gyda nodau a thargedau sbesiffig a mesuradwy sydd wedi diffinio'n glir, ac mae defnyddio data yn pwysleisio pwysigrwydd o osod nodau a thargedau (Schildkamp, 2019, t.258). Noda Schildkamp dylai casglu data fod yn gysylltiedig â'r targedau a dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ar ba dargedau sydd wedi cael eu cyflawni neu beidio (Schildkamp, 2019, t.258). Yn anffodus,nid yw arfarniad targedau Rhagfyr wedi ei lenwi i. Mae gan y targedau hyn ffocws mawr ar ddata meintiol yn enwedig pa ddeilliannau a lefelau mae eisiau i'r disgyblion gyrraedd. Felly yn bresennol nid yw'n bosib dadansoddi'r hyn noda Schildkamp am werthusiad y targedau a rôl data yn y gwerthusiad.

Mae rhanddeiliaid yn rhan bwysig o CGY, gan ei bod nhw'n rhan o fywyd a llwyddiant yr ysgol (Brighthouse a Woods, 1999, t.106). Mae rhanddeiliaid yn cynnwys disgyblion, rhieni, staff cynorthwyol, y pennaeth, staff addysgu a llywodraethwyr (Brighthouse a Woods, 1999, t.106). Mae aelodau sbesiffig o lywodraethwyr yr ysgol yn gyfrifol am bob targed yn y CGY. Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth ddywedai Brighthouse a Woods am lywodraethwyr penodol sy'n gysylltiedig gydag agwedd o'r CGY (Brighthouse a Woods, 1999, t.112). Yn ogystal â llywodraethwyr penodol mae dau aelod o staff yr ysgol gyda chyfrifoldeb arweiniol i bob targed ac mae'r aelodau staff yma ar uwch dim yr ysgol. Yn ol Brighthouse a Woods, mae rhanddeiliaid yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn gwella'r tebygolrwydd o lwyddo (Brighthouse a Woods, 1999, t.109). Mae llywodraethwyr fel 'ffrind critigol' i staff a phennaeth yr ysgol ac mae angen iddynt fod yn adnabyddus o fewn yr ysgol (Brighthouse a Woods, 1999, t.111). Yn ol arolygiad diweddara'r ysgol , mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn gyson sy'n eu galluogi i weld cryfderau'r ysgol a beth sydd angen gwella (Estyn, 2016a, t.11). O ganlyniad i hyn mae'r llywodraethwyr yn medru herio'r ysgol (Estyn, 2016a, t.11). Yn ôl Llywodraeth Cymru er mwyn i'r CGY fod y fwyaf effeithiol dylai'r holl randdeiliaid bod yn rhan ohono, er mwyn sicrhau bod pawb gydag ymrwymiad i wella'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014, t.10). Er hyn wrth ddadansoddi'r

ddogfen does braidd dim pwyslais ar rieni neu staff cynorthwyol o fewn y ddogfen, ond mae llais y disgybl yn cael ei gynnwys fel rhan o ffynhonnell tystiolaeth.

Yn ol Billingham (2016), cynllunio strategol yw'r broses o osod nodau a phenderfynu ar y camau i gyflawni'r nodau gan ddefnyddio'r adnoddau sy ar gael. Noda Llywodraeth Cymru (2014,t.11) dim ond un cynllun strategol sydd angen ar ysgolion sef un ffordd o gofnodi "ei strategaethau a'i swyddogaethau a'i blaenoriaethau gwella". Mae CGY yn "fodd o symleiddio prosesau cynllunio strategol ysgolion" (Llywodraeth Cymru, 2014, t.11). Wrth ddadansoddi'r CGY y blaenoriaethau gwella ydy gwraidd y ddogfen hon. Mae strategaethau a gweithredoedd o sut fydd yr ysgol yn mynd ati i gyrraedd y flaenoriaeth yn glir. Mae'r cynllun yn cynnwys bocs ar gyfer amserlen a chost y weithred ynghyd â'r newid effaith a disgwylir. Er hyn nid ydy pob gweithred o fewn targed wedi cynnwys amserlen neu gost, ac heb osod amser penodol fe all y weithred cael ei gwthio i'r ochr neu gael ei anwybyddu. Noda Hanover Research (2014, t.12) dylai targedau a gweithredoedd y targed cael ei rhannu a fapio yn ôl tymhorau'r ysgol, mis a hyd yn oed wythnos os yn bosib.

Mae'r ysgol yn mesur effaith gweithredoedd y targedau blaenoriaeth tair gwaith y flwyddyn, yn Rhagfyr, Mawrth a Mehefin. Er mwyn mesur effaith y targedau mae'r ysgol yn defnyddio nifer iawn o ffynhonnellau tystiolaeth megis cynlluniau'r athrawon, gwaith a llyfrau'r plant, portffolios digidol, llais y disgybl ac arsylwadau. Mae'r ystod eang o ffynhonnellau yn cynnwys y dysgwr a'r addysgwr ac nid oes dibyniaeth ar un ffynhonnell yn unig.

Adolygiad a Gwerthusiad

Mae blaenoriaeth tri y CGY sef 'Dysgu ac Addysgu- codi safonau Iaith' yn cynnwys data meintiol clir, sef canrannau ynglŷn â thargedau cyrhaeddiad y disgyblion o ran ei lefelau a deilliannau. Mae gan ddwy athrawes addysgu gyfrifoldeb arweiniol o'r targed yn ogystal â thri llywodraethwr cyswllt (CGY, 2019, t.20). Mae saith gweithred o fewn y targed ac yn bresennol mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu dau o'r gweithredoedd yma. Mae'r ysgol yn defnyddio cod lliw (gwyrdd, melyn a coch) er mwyn dangos statws pob gweithred.

Nid oes cost i unrhyw weithred o fewn y targed yma, gan fod llawer ohonynt yn ail gyflwyno neu ail gyfodi cynlluniau sy'n datblygu iaith a llythrennedd megis y Cynllun Clebran. Yn anffodus, nid yw hunanwerthusiad mis Rhagfyr a Mawrth wedi ei ychwanegu i'r targed hwn felly mae'n anodd iawn dadansoddi beth sydd wedi bod yn effeithiol neu wedi dangos canlyniadau positif o ran gweithredoedd y targed hwn.

Er hyn, mae holl staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant Tric a Chlic yn ystod diwrnod hyfforddiant mewn swydd yn Nhymor yr Hydref. Yn ôl Solheim (2017), mae hyfforddiant yn annatod a bwysig i athrawon gan ei bod yn hybu sgiliau addysgu'r athro, datblygu

gwybodaeth a hyfedredd sy'n medru gwella dysgu'r disgyblion. O ganlyniad i'r hyfforddiant yma mae'r ysgol wedi gwneud "defnydd effeithiol a chywir o'r ymyrraeth Tric a Chlic trwy'r ysgol gyfan, mae sgiliau darllen y disgyblion yn datblygu'n effeithiol yn ôl eu gallu, ac mae cynnydd yn natblygiad y plant wrth ddilyn cynllun Tric a Chlic" (CGY, 2019, t.20).

Maent hefyd wedi dechrau datblygu ac annog brwdfrydedd tuag at ddarllen. Aethon nhw ati i wneud hyn trwy sicrhau bod pob dosbarth yn cynnwys cylch darllen o ddeuddeg munud pob bore, a gwahoddwyd awduron i siarad â'r disgyblion er mwyn hybu statws darllen/ysgrifennu ac anfon llythyron at rieni am bwysigrwydd darllen yn rheolaidd (CGY, 2019, t.21). Mae cynnwys rhieni o fewn addysg eu plant yn hollbwysig. Datganwyd y National Literacy Trust (2007) y gynharach mae rhieni yn ymglymu gydag ymarferion llythrennedd eu plant, y mwyaf o newid positif fydd yn ei chanlyniadau a fydd yr effaith yn hir dymor. Cyfranogiad rhieni yn darllen eu plant ydy'r penderfynydd pwysicaf iaith a llythrennedd (National Literacy Trust, 2007).

Yn bresennol mae pum gweithred o fewn targed codi safonau iaith ar waith sy'n cynnwys ail gyfodi'r Cynllun Clebran, ail gyflwyno Cynllun Llafaredd, ffocws ar waith iaith estynedig pythefnosol, disgyblion Math / Polisi Adborth (CGY, 2019, t.20-1).

Wrth ddadansoddi'r gweithredoedd y targed mae'r mwyafrif wedi ffocysu ar gyfnod allweddol dau ac nid oes gweithredoedd sbesiffig i'r Cyfnod Sylfaen. Mae ffocws ar waith estynedig ar gyfer CA2 yn deillio o flaenoriaeth y sir (Estyn, 2019) ond nid oes unrhyw ffocws ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Fe all y CGY rhoi ffocws pendant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen megis digon o brofiadau a chyfleoedd chwarae rôl gan fod hyn yn datblygu sgiliau siarad y plant o'r Feithrin i Flwyddyn dau yn ol y Fframwaith Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015, t.14).

Yn ôl EEF, siarad a gwrando sydd wrth wraidd iaith ac yn sylfaen i ddarllen ac ysgrifennu (EEF, 2017, t.8). Mae datblygu sgiliau siarad y disgyblion wedi ei chynnwys yn y CGY gyda gweithredoedd o ail gyfodi'r Cynllun Clebran ac ail gyflwyno'r Cynllun Llafaredd. Ond nid oes llawer o gyfleoedd wedi ei thargedu er mwyn datblygu sgiliau gwrando'r plant. Yn ôl maes dysgu a phrofiad Iaith, llythrennedd a chyfathrebu mae sgiliau a'r gallu "i wrando'n astud a siarad yn glir ac yn ddealladwy yn briodoleddau hanfodol mewn dysgu ac mewn bywyd yn gyffredinol" (Donaldson, 2015, t.48). Gall yr ysgol weld gwahaniaeth yn sgiliau llythrennedd eu disgyblion os maent yn cynnwys gweithred yn y targed yn seiliedig ar ddarparu mwy o gyfleoedd a phrofiadau gwrando a siarad.

Casgliad

Mae'n amlwg wrth edrych ar CGY bod y ddogfen hon yn arwain ysgol a dangos beth maent yn ei wneud o ddydd i ddydd er mwyn cyrraedd a chyflawni ei thargedau. Teimlaf yn hyderus am fy nealltwriaeth o brosesau'r CGY a'i bwysigrwydd yn natblygiad yr ysgol. Fe fydd hyn yn sicr o gymorth i mi yn y dyfodol o fewn fy ngyrfa addysg. Mae angen i CGY cynnwys esboniad am sut fyddan nhw'n cyrraedd ei thargedau, pa adnoddau sydd angen yn ogystal â'r gost ac amserlen (Llywodraeth Cymru, 2014, t.3). Mae defnyddio ystod o ffynonellau er mwyn tystiolaethu gweithred yn medru rhoi darlun mwy eglur am yr hyn mae'r ysgol yn ceisio cyflawni. Mae'r aseiniad yma wedi datblygu fy ngwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â CGY ac edrychaf ymlaen yn y dyfodol i fod yn rhan o gynllun strategol ysgol.

Rhestr Cyfeirnodi

BBC (2020). 'Coronavirus: Schools in Wales all closing by Friday', BBC News, 18 Mawrth. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51947148 (Darllenwyd 7 Ebrill).

Billingham, J. (2016). 'Strategic Planning in Education – 3 Keys to Success', *thought exchange.* Ar gael yn: https://www.thoughtexchange.com/strategic-planning-in-education-3-keys-to-success/ (Darllenwyd 7 Ebrill 2020).

Brighthouse, T. a Woods,D. (1999). *How to Improve Your School.* London: Routledge.

National Literacy Trust. (2007). *'Why it is important to involve parents in their children's literacy development'*.

Cynllun Gwella Ysgol (2019). Ysgol PAP 1.

Donadlson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* OGL

EEF- Education Endowment Foundation (2017). *Improving Literacy in Key Stage 2*. Ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Literacy/KS2_Literacy_Guidance_2017.pdf (Darllenwyd 8 Ebrill 2020).

Estyn. (2016a). Adroddiad. *https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[redacted]%20en.pdf* (Darllenwyd 3 o Ebrill 2020)

Estyn. (2016b). *Gwella llythrennedd trwy ddysgu creadigol.*Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-llythrennedd-trwy-ddysgu-creadigol?_ga=2.226467539.897050877.1586286694-2098266129.1552659270 (Darllenwyd 6 Ebrill 2020)

Estyn. (2017b). *Arweiniad atodol: arolygu llythrennedd mewn ysgolion.* Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/NIA%20Supplementary%20guidance%20-%20literacy%20cy.pdf

Estyn. (2017a). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Annual%20Report_Welsh_Accessible.pdf (Darllenwyd 9 Ebrill 2020).

Estyn. (2019). Adroddiad. https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[redacted]%20County%20Borough%20Council%20cy_0.pdf (Darllenwyd 9 Ebrill 2020).

Fyysgolleol.gov.wales. (2018). [redacted]. [ar-lein] Ar gael yn: http://mylocalschool.gov.wales/School/6722259?lang=cy (Darllenwyd: 2 o Ebrill 2020).

Hanover Research (2014). *Best Practices for School Improvement Planning.* Ar gael yn https://www.hanoverresearch.com/media/Best-Practices-for-School-Improvement-Planning.pdf (Darllenwyd 1af o Ebrill).

Lewis, B. (2019). 'Pisa education tests: Wales improves performance', BBC News, 3 Rhagfyr. Ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50629432 (Darllenwyd 10 Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru (2013). *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/storage/c163e330-a978-4523-8ce6-b659af27a51f/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf (Darllenwyd 10 Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru (2014). *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.*

Schildkamp, K. (2019) 'Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps', *Educational Research*, 61 (3), tud. 257-273. DOI: 10.1080/00131881.2019.1625716

Solheim, K. (2017). Importance of teacher learning for students' achievement, Centre for Learning Enviroment. Ar gael yn: https://laringsmiljosenteret.uis.no/reseach-and-development-projects/classroom-interaction-for-enhanced-student-learning-ciesl/news/importance-of-teacher-learning-for-students-achievement-article127646-24409.html (Darllenwyd 6 Ebrilll 2020).